Statws *Mae'r fersiwn hon o'r ddarpariaeth hon yn rhagolygol.*
Newidiadau i ddeddfwriaeth: *Mae newidiadau yn dal heb eu gwneud i Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017. Mae unrhyw newidiadau sydd wedi cael eu gwneud yn barod gan y tîm yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt gydag anodiadau. (See end of Document for details) View outstanding changes*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2017 No. 1264

Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017

PROSPECTIVE

RHAN 8

Gofynion ar ddarparwyr gwasanaethau - diogelu

Polisïau a gweithdrefnau diogelu

27.—(1) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth gael polisïau a gweithdrefnau yn eu lle—

(a) ar gyfer atal camdriniaeth, esgeulustod a thriniaeth amhriodol, a

(b) ar gyfer ymateb i unrhyw honiad neu dystiolaeth o gamdriniaeth, esgeulustod neu driniaeth amhriodol.

(2) Yn y rheoliad hwn, cyfeirir at bolisïau a gweithdrefnau o'r fath fel polisïau a gweithdrefnau diogelu.

(3) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth sicrhau bod ei bolisïau a'i weithdrefnau diogelu yn cael eu gweithredu'n effeithiol.

(4) Yn benodol, pan fo honiad neu dystiolaeth o gamdriniaeth, esgeulustod neu driniaeth amhriodol, rhaid i'r darparwr gwasanaeth—

(a) gweithredu yn unol â'i bolisïau a'i weithdrefnau diogelu,

(b) cymryd camau gweithredu ar unwaith i sicrhau diogelwch pob unigolyn y darperir gofal a chymorth iddo,

(c) gwneud atgyfeiriadau priodol at asiantaethau eraill, a

(d) cadw cofnod o unrhyw dystiolaeth neu sylwedd unrhyw honiad, unrhyw gamau gweithredu a gymerir ac unrhyw atgyfeiriadau a wneir.

(5) Pan fo'r gwasanaeth yn cynnwys darparu llety i blant, rhaid i'r darparwr gwasanaeth gael y polisïau a'r gweithdrefnau a ganlyn yn eu lle—

(a) polisi ar atal bwlio;

(b) gweithdrefnau ar gyfer ymdrin â honiad o fwlio;

(c) y weithdrefn sydd i gael ei dilyn pan fo unrhyw blentyn y darperir llety iddo yn absennol heb ganiatâd.

Gwybodaeth Cychwyn

I1 Rhl. 27 mewn grym ar 2.4.2018, gweler **rhl. 1(2)**

Statws
Mae’r fersiwn hon o'r ddarpariaeth hon yn rhagolygol.

Newidiadau i ddeddfwriaeth:
Mae newidiadau yn dal heb eu gwneud i Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017. Mae unrhyw newidiadau sydd wedi cael eu gwneud yn barod gan y tîm yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt gydag anodiadau.
View outstanding changes

Changes and effects yet to be applied to :

– reg. 27 coming into force by S.I. 2017/1264 reg. 1(2)

Changes and effects yet to be applied to the whole Instrument associated Parts and Chapters:
Whole provisions yet to be inserted into this Instrument (including any effects on those provisions):

– reg. 3(1)(h)(i) inserted by S.I. 2019/757 reg. 5(b)
– reg. 35(8A)(a)(iv) inserted by S.I. 2022/832 reg. 3(c)(iii)